



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod **Y Cabinet**

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Iau, 20 Ebrill 2023 am 10.00 am

Yn Bresennol: Y Cyngorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

C Anderson
E J King
A H Stevens

Y Cyngorydd(wyr)

L S Gibbard
A S Lewis

Y Cyngorydd(wyr)

H J Gwilliam
R V Smith

Swyddog(ion)

Huw Evans
Tracey Meredith
Martin Nicholls
Ben Smith
Lee Wenham
Ness Young

Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
Prif Swyddog Cyfreithiol
Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151
Head of Communications & Customer Engagement
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro

Hefyd yn bresennol

Y Cyngorydd(wyr):-

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): R Francis-Davies, D H Hopkins a/ac A Pugh

169. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

- 1) Datganodd y Cyngorydd E J King gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 174 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried".
- 2) Datganodd y Cyngorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 174 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.
- 3) Datganodd y Cyngorwyr E J King a R V Smith gysylltiad personol â Chofnod 178 "Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Hamdden 2021-2022".

170. Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

- 1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023.

171. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y cyngor wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau adferiad o bandemig COVID ac i ymdrin â chostau byw. Roedd y cyngor hefyd yn gweithio i sicrhau canol dinas cynaliadwy sy'n addas i fusnesau ac ymwelwyr. Dywedodd nad oedd y cyngor wedi cael popeth yn gywir o ran rhoi'r taliadau parcio newydd ar waith. Dywedodd y byddai'r cyngor yn parhau i weithio gyda hyrwyddiadau â'r bwriad o gynorthwyo preswylwyr â chostau o'r fath.

172. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

173. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

174. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALI) ar gyrfff llywodraethu ysgolion.

Penderfynwyd ar y canlynol:

- 1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

1)	Ysgol Gynradd Cadle	Eglwys Dawn
2)	Ysgol Gynradd y Crwys	Dominic Nutt

175. Rhaglen Trawsnewid y Gweithlu a Datblygu. Sefydliadol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad sy'n ceisio cymeradwyaeth o'r Rhaglen Trawsnewid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol newydd.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo'r buddsoddiad arfaethedig o £391,000 i ariannu'r prosiectau blaenoriaeth cychwynnol a nodwyd yn Achos Busnes y Rhaglen Trawsnewid Datblygu Sefydliadol fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad.

176. Strategaeth Digidol 2023-2028 a Rhaglen Trawsnewid.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Ddigidol newydd 2023-2028 a'r Rhaglen Trawsnewid Digidol perthnasol.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo Strategaeth Ddigidol 2023-2028 fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad.
- 2) Cymeradwyo'r buddsoddiad arfaethedig o £2.042 miliwn i ariannu'r prosiectau blaenoriaeth cychwynnol a nodwyd yn Achos Busnes y Rhaglen Trawsnewid Digidol fel yr amlinellir yn Atodiad B yr adroddiad.

177. Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy - Cynllun Trawsnewid Corfforaethol 2023.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Trawsnewid Corfforaethol newydd 2023-2028.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo Cynllun Trawsnewid Corfforaethol 2023-2028 fel yr amlinellwyd yn Atodiadau 1-3 o'r adroddiad.

178. Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Hamdden 2021/2022.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu gweithdrefnau partneriaeth cyfleusterau allweddol ym mhorthffolio'r Gwasanaethau Diwylliannol.

179. Cynllun Ardal Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg 2023-2027.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Ardal Partneriaeth Gorllewin Morgannwg yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 23 Ionawr 2023.

Penderfynwyd:

- 1) Cymeradwyo Cynllun Ardal Gorllewin Morgannwg 2023-2027.
- 2) Nodi y caiff y cynllun ei ystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer cymeradwyaeth cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.30 am

Cofnodion cyfarfod Y Cabinet (Dydd Iau, 20 Ebrill 2023)
Parhad

Cadeirydd

Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol	
Dyddiad cyhoeddi:	20 Ebrill 2023
Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben (3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi):	23.59, 25 Ebrill 2023
Penderfyniad yn dod i rym:	26 Ebrill 2023